Partneriaeth Strategol
Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

Canllawiau Ymchwil Plant a Phobl Ifanc Lleol Drafft

Tachwedd 2008

DRAFT

DRAFT

Ein Huchelgais ar gyfer 2009 - 2011

Wrth ddatblygu'r canllawiau hyn, bu i'r Grŵp Cynllunio a Datblygu – Ymchwil Plant a Phobl Ifanc nodi nifer fechan o amcanion strategol y byddai'n dymuno'u gweld yn cael eu gwireddu yn ystod oes y Canllawiau Ymchwil Lleol:

Erbyn diwedd 2011, rydym yn anelu at wireddu'r deilliannau a ganlyn:

- **Bod plant a phobl ifanc yn chwarae rhan fwy amlwg yn y gwaith o gomisiynu ymchwil, ei weithredu, ei werthuso a lledaenu gwybodaeth amdano yng Ngwynedd.**

- **Ein bod yn cynnal, comisiynu a defnyddio mwy o waith ymchwil am grwpiau o blant a phobl ifanc nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml e.e. plant anabl, lleiafrifoedd ethnig a gofalwyr ifanc.**

- **Ein bod wedi cydweithio gyda'n gilydd a gyda phlant a phobl ifanc er mwyn rhannu ein harbenigedd, datblygu ein sgiliau, gwerthuso effaith ein gwaith a'r dylanwad y mae'n ei gael, ac er mwyn llenwi'r bylchau yn ein gwybodaeth am blant a phobl ifanc Gwynedd.**

Gobeithiwn y bydd yr ymchwilwyr sy'n gweithio gyda ni ac ar ran plant a phobl ifanc Gwynedd yn cydweithio â ni fel y gallwn wireddu'r uchelgais hon.

DRAFT

Diffinio'r Astudiaeth

Yn gyntaf, rhaid diffinio astudiaeth. Dylai'r tabl canlynol a gafodd ei ddatblygu gan Wasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol y GIG gynorthwyo ymchwilwyr i gategoreiddio pa un a ddylid categoreiddio eu hastudiaeth yn Ymchwil, Archwiliad neu Arfarnu Gwasanaeth.

Ymchwil	Archwiliad	Arfarnu Gwasanaeth
Ymchwil systematig wedi ei gynllunio i geisio sicrhau gwybodaeth. Cynnwys astudiaethau sy'n ceisio cynhyrchu damcaniaethau yn ogystal ag astudiaethau sy'n ceisio eu profi.	Wedi ei gynllunio a'i gynnal i gynhyrchu gwybodaeth i lywio trosglwyddo'r arfer gorau.	Wedi ei gynllunio a'i gynnal yn unig i ddiffinio neu roi dyfarniad ar arferion cyfredol.
Yn delio gyda chwestiynau, nodau ac amcanion wedi eu diffinio'n eglur. Ymchwil meintiol – a gynlluniwyd i brofi damcaniaeth. Ymchwil ansoddol – adnabod/archwilio themâu yn dilyn methodoleg a sefydlwyd.	Mesur yn erbyn safon a bennwyd ymlaen llaw.	Mesur heb gyfeirio at safon.
Gall gynnwys ymchwilio i ddamcaniaethau/cysyniadau newydd a chynnal arbrofion neu ffurfiau llai gwrthrychol o fesur megis holiaduron, cyfweliadau, arsylwi.	Cynnwys ond gwasanaethau/arferion sydd eisoes wedi hen sefydlu. Nid yw'n cynnwys cynnal arbrofion neu brofi cysyniadau/damcaniaethau newydd. Nid yw'n cyflwyno unrhyw elfennau ychwanegol o ran dewis.	Ond yn cynnwys gwasanaethau/arferion sydd eisoes wedi hen sefydlu. Nid yw'n cynnwys cynnal arbrofion na phrofi cysyniadau/damcaniaethau newydd. Nid yw'n cyflwyno unrhyw elfennau ychwanegol o ran dewis.
Fel arfer yn cynnwys casglu data newydd, er y gall gynnwys data sydd eisoes yn cael ei gasglu fel rheol.	Fel arfer yn cynnwys dadansoddi data sy'n bodoli eisoes ond gall gynnwys gweinyddu cyfweliad neu holiadur syml.	Fel arfer yn cynnwys dadansoddi data sy'n bodoli eisoes ond gall gynnwys gweinyddu cyfweliad neu holiadur syml.
Gall gynnwys dyrannu rhai sy'n ymchwilio i reoli/grwpiau arbrofol. Gall gynnwys dewis ar hap.	Dim dyrannu i grwpiau rheoli/arbrofol. Dim dewis ar hap.	Dim dyrannu yn grwpiau rheoli/arbrofi. Dim dewis ar hap.

DRAFT

Canllaw Ymchwil

Dylid cwmpasu'r meysydd canlynol mewn unrhyw gynnig sy'n ymwneud ag ymchwil sydd yn ymwneud â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

1. Cefndir a Phwrpas	1.1	Dylid cytuno ar a nodi cyfrifoldebau'r Ymchwilydd a'r Comisiynydd o'r cychwyn.
	1.2	Dylai bod i'r cynnig ar gyfer yr ymchwil bwrpas eglur, yn cynnwys amcanion a nodau cytunedig. Dylai hefyd gynnwys pam bod yr ymchwil yn bwysig a'r hyn y dymunir ei ddarganfod.
	1.3	Dylai'r cynnig ymchwil ddatgan yn eglur ddiben yr ymchwil ac i bwy y caiff ei adrodd a'i ledaenu.
	1.4	Dylid ystyried astudiaethau eraill yn yr un maes a sut bydd yr ymchwil hwn yn ychwanegu at wybodaeth.
	1.5	Ar ddechrau unrhyw ymchwil, dylai bod gan blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan ddealltwriaeth eglur ynghylch cefndir, pwrpas y gwaith a sut y caiff ei ddefnyddio.
	1.6	Dylid cytuno ar bwy sy'n gyfrifol am arolygu a monitro'r ymchwil o'r cychwyn.

2. Proses	2.1	Dylid cytuno ar fethodoleg ymchwil o'r cychwyn, yn cynnwys prun yw'r prif ddull a ddefnyddir i gynnal ymchwil? Sut caiff data ei gasglu? Sut caiff y sampl ei ddewis a'i recriwtio?
	2.2	Dylid cytuno ar amserlen eglur a realistig o ddyddiadau dechrau a chwblhau'r ymchwil rhwng yr Ymchwilydd a'r Comisiynydd o'r cychwyn.
	2.3	Dylai'r Comisiynydd a'r Ymchwilydd gytuno ar ddyddiadau ar gyfer rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ac adroddiadau ynghylch cynnydd ac ar gyfer pwy y dylid eu darparu.
	2.4	Dylai unrhyw offer a ddefnyddir yn y broses o gasglu data fod yn briodol ac yn hygyrch i bawb sy'n cymryd rhan.
	2.5	Dylid cynnal cynllun peilot ar bob cwestiwn ymchwil sydd wedi eu cyfeirio tuag at blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn addas.
	2.6	Rhaid ystyried dyrannu adnoddau o gychwyn cyntaf prosiect er mwyn cydnabod a gwobrwyo plant mewn modd priodol o ran y prosiect dan sylw.
	2.7	Dylai ymchwilwyr gynnwys cyfeiriad at sut y bu iddynt benderfynu ar faint eu sampl ar gyfer y gwaith ymchwil a ffynhonnell y sampl honno.

3. Moeseg	3.1	Dylid rhoi sylw i gyfleoedd cyfartal, yn cynnwys ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg.
	3.2	Dylid sicrhau bod grwpiau a dargedir yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ac y defnyddir grwpiau sydd wedi sefydlu a grwpiau sy'n bodoli eisoes.
	3.3	Dylid adnabod unrhyw beryglon posibl o niwed i Ymchwilwyr a rhai sy'n cymryd rhan o'r cychwyn.
	3.4	Dylid rhoi taflen wybodaeth ar gael a sicrhau cysyniad y rhai sy'n cymryd rhan, yn ogystal â rhieni neu warcheidwaid (os yw'n berthnasol) a'r ysgol neu'r gwasanaeth (os yw'n berthnasol) ar ddechrau'r astudiaeth.
	3.5	Dylid hysbysu rhai sy'n cymryd rhan ar y dechrau sut y gallant gwyno os ydynt yn anfodlon ag unrhyw agwedd o'r astudiaeth.
	3.6	Dylai bod trefniadau ar gyfer delio ag unrhyw gwynion a all godi.
	3.7	Dylai bod trefniadau ar gyfer delio gyda ac ymateb i unrhyw faterion sensitif a all godi yn ystod yr ymchwil.
	3.8	Dylid hysbysu'r sawl sy'n cymryd rhan o'r cychwyn o'u hawliau i roi'r gorau i fod yn rhan o'r astudiaeth ar unrhyw adeg.
	3.9	Dylid egluro'r trefniadau a'r penderfyniadau i bawb.

4. Sgiliau a Gwybodaeth	4.1	Dylai'r sawl sy'n ymchwilio, neu aelod o'r tîm ymchwilio ddeall plant a bod â diddordeb mewn gwaith ymchwil sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, ac yn benodol bod gyda'r: ➢ Wybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant lleol. ➢ Gallu i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc. ➢ Profiad o wneud gwaith ymchwil.
	4.2	Dylai bod yr iaith a ddefnyddir yn yr astudiaeth ymchwil yn briodol a bod pob plentyn a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn ei deall.

5. Diogelu a Chyfrinachedd	5.1	Os yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, dylai'r Ymchwilydd dderbyn archwiliad SCT priodol.
	5.2	Dylai bod gan yr ymchwilydd bolisi ar ddiogelu plant a phobl ifanc.
	5.3	Rhaid cadw'r holl wybodaeth yn gyfrinachol er mwyn diogelu unigolion a dylid rhoi gwybod am hyn i bawb sy'n cymryd rhan, a hynny ar ddechrau'r gwaith ymchwil. Fodd bynnag, fel arfer, bydd ystyriaethau amddiffyn plant yn gorbwyso'r egwyddor o gadw pethau'n gyfrinachol pe bai gwybodaeth yn dod yn amlwg yn ystod prosiect ymchwil sy'n awgrymu bod diogelwch plentyn mewn perygl.
	5.4	Dylid cyhoeddi canlyniadau gwaith ymchwil ar lefel ofodol a grŵp priodol er mwyn sicrhau bod manylion y rhai sy'n cymryd rhan yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

6. Canlyniadau ac Adrodd	6.1	Dylid cynnig copi o'r adroddiad i'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn y gwaith ymchwil (argymhellir rhoi crynodeb wedi'i eirio'n briodol iddynt) ynghyd â chrynodeb o'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd er mwyn ymateb i'r canlyniadau.
	6.2	Dylid cytuno ar y dechrau dros ba gyfnod y dylid cadw'r canlyniadau.
	6.3	Dylai plant a phobl ifanc gael cydnabyddiaeth am gymryd rhan yn yr ymchwil.
	6.4	Anogir ymchwilwyr i rannu canfyddiadau terfynol eu hymchwil gydag ymchwilwyr eraill yng Ngwynedd a hynny trwy adroddiadau lledaenu gwybodaeth a chyflwyniadau.

Gweithredu'r Canllawiau

Mae'r canllawiau yma yn darparu cyngor gwirfoddol at ddefnydd ymchwilwyr a chomisiynwyr. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn mawr obeithio y bydd comisiynwyr ac ymchwilwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac sy'n gweithio ar eu rhan yng Ngwynedd yn ystyried y canllawiau yma fel rhai defnyddiol ac adeiladol ar gyfer eu hymarfer eu hunain, boed y gwaith yn cael ei gwblhau ar ran Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ai peidio.

Fel Partneriaeth Strategol, mae gennym fwy o ddylanwad uniongyrchol dros ein hymarfer ein hunain. Felly, ein bwriad yw defnyddio'r canllawiau yma yn y dulliau canlynol:

- Wrth gomisiynu gwaith ymchwil, byddwn yn gofyn i ddarpar ddarparwyr ymchwil i gwblhau datganiad byr yn nodi eu bwriad ar gyfer ymateb i'r canllawiau fel rhan o'r gwaith. Bydd y wybodaeth yma yn cael ei ystyried ochr yn ochr â gwybodaeth eraill wrth ddyfarnu gwaith.

- Fel Partneriaeth Strategol, byddwn yn cynnal gwerthusiad blynyddol o'n ymarfer ein hunain er mwyn ceisio adnabod pa mor llwyddiannus yr ydym wedi bod o safbwynt cwrdd â gofynion y canllawiau.

- Dros y tymor hir, byddwn yn gwahodd aelodau unigol o'r Bartneriaeth Strategol i fabwysiadau'r canllawiau yma a'u defnyddio fel rhan o'u trefniadau comisiynu.

- Fel Partneriaeth Strategol, yr ydym yn bwriadu darparu cefnogaeth (drwy fentora a hyfforddiant) i gomisiynwyr ac ymchwilwyr i'w cynorthwyo i ddefnyddio'r canllawiau.

- Fel Partneriaeth Strategol, yr ydym yn bwriadu rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc i leisio'u barn o leiaf unwaith yn ystod y tair blynedd nesaf ar sut y gellir gwella'r modd y cynhelir ymchwil yng Ngwynedd, yn arbennig yn nhermau'r modd y cânt eu cynnwys wrth gynllunio a gweithredu prosiectau ymchwil.

DRAFT